Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Edrych ar Newidiadau yn y Boblogaeth

## Nodiadau Canllaw ar gyfer Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Archwilio data poblogaeth a chyfrifiad ar gyfer Froncysyllte
- Darganfod sut y mae'r boblogaeth wedi newid dros amser
- Datblygu sgiliau yn cynnwys ymchwilio, casglu data a dadansoddi

### Adnoddau

- Tabl Newid yn y Boblogaeth
- Dogfennau Cyfrifiad 1841 a 1891
- Taflen Gofnodi Cyfrifiad Wag
- Tabl Cymharu Cyfrifiadau



### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgareddau

Bydd dysgwyr yn archwilio gwybodaeth o dri cyfrifiad o boblogaeth Froncysyllte ar wahanol gyfnodau. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth y maent yn ei chasglu i greu graffiau, coladu data a dadansoddi'r canlyniadau. Bydd hyn yn eu galluogi i ddarganfod sut y mae poblogaeth Froncysyllte wedi newid dros amser.

#### Nodiadau ar y Cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad yn arolwg sy'n digwydd bob 10 mlynedd yn y DU. Mae'n rhoi'r amcangyfrif gorau o'r holl bobl ac aelwydydd yn y DU, gan helpu i adeiladu darlun manwl o gymdeithas yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r cyfrifiad yn gofyn cwestiynau am pwy sy'n aros ar bob aelwyd ar noson y cyfrifiad, eu hoed, eu gwaith, lle cawson nhw eu geni ac ati.

Cynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf yn 1801 ond nid oedd pob unigolyn ar bob aelwyd yn cael eu rhestru tan gyfrifiad 1841. Daeth cyfrifiadau wedi hynny'n fwy manwl eto. Roedd y wybodaeth yn cael ei chasglu gan gyfrifwyr a oedd yn llenwi'r ffurflenni ar ran preswylwyr anllythrennog. Erbyn heddiw mae preswylwyr yn llenwi'r cyfrifiad eu hunain ac yn aml yn cyflwyno'r wybodaeth ar-lein. Roedd y cyfrifiad diweddaraf ym mis Mawrth 2021.

**Noder:** Mae copïau o dudalennau gwreiddiol y cyfrifiad wedi eu cynnwys yma ond efallai y bydd rhai yn cael trafferth i'w dehongli felly mae trawsgrifiad wedi'i gynnwys hefyd.

### Syniadau am Weithgareddau Cychwynnol:

- Trafod beth yw cyfrifiad, pa wybodaeth sy'n cael ei chofnodi a pham.
- Trafod y cyfrifiad diweddaraf pan gafodd gwybodaeth am aelwydydd y dysgwyr eu hunain ei chofnodi ar gyfer y dyfodol.

### Gweithgareddau Eraill:

- Cofnodwch gyfrifiad o'ch dosbarth, grŵp blwyddyn neu hyd yn oed eich ysgol. Beth wnewch chi gofnodi? Pa wybodaeth allai pobl yn y dyfodol fod eisiau ei gwybod am eich ysgol?
- Ymchwiliwch rôl merched dros yr ychydig ganrifoedd diwethaf. Sut mae hyn wedi newid? Allwch chi ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth o pa bryd ddechreuodd pethau newid?

### Briff ar Gyfer Dygwyr:

**Gweithgaredd 1: Newidiadau yn y Boblogaeth**

Defnyddiwch y tabl poblogaeth i gwblhau'r tasgau canlynol.

1. Plotiwch y boblogaeth hollgynhwysfawr ym mhob blwyddyn fel llinell graff neu siart bar.
   - Sut mae'r boblogaeth wedi newid dros amser?
   - Pam ydych chi'n meddwl bod newid wedi digwydd dros amser? Beth allai fod wedi dylanwadu ar y newid hwn?
2. Gwnewch y swyddi yr oedd pobl yn eu gwneud yn 1911 a 2011 yn siartiau cylch. Sut mae swyddi wedi newid?
3. Nid oedd cyfrifiad 1841 yn gofyn pwy oedd yn siarad Cymraeg. Ydych chi'n meddwl y byddai canran y siaradwyr Cymraeg wedi bod yn uwch neu'n is yn 1841? Rhowch eich rhesymau dros eich ateb.

**Gweithgaredd 2: Cymharu cyfrifiadau 1841, 1891 a heddiw**

1. Creu eich cyfrifiad eich hun yn cofnodi gwybodaeth am eich teulu gan ddefnyddio'r templed.
2. Defnyddiwch gofnodion cyfrifiad aelwydydd yn 1841, 1891 a'ch aelwyd eich hun i gwblhau'r tabl.
3. Cymharwch y data o'r tri cyfrifiad. Pa wahaniaethau allwch chi eu darganfod ac allwch chi awgrymu'r rhesymau drostynt?

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Tabl Newid yn y Boblogaeth



| | 1841 | 1891 | 2011 |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth Hollgynhwys-fawr** | 426 | 912 | 1140 (yn ymestyn dros ardal fwy) |
| **Plant 0 – 18 oed** | 215 | 440 | 215 |
| **Faint sy'n siarad Cym-raeg?** | Heb ei gofnodi | 75% | 14% |
| **Swyddi cyffredin** | Llafurwr<br>Chwarelwr<br>Glöwr<br>Masnachwr<br>Morwyn/Gwas | Cloddio am lo (145)<br>Gwneud brics a theils (45)<br>Chwarelu (12)<br>Llafurio Cyffredinol (13)<br>Masnachwr (13) | Gweithgynhyrchu ac adeiladu (28)<br>Gweinyddu (19)<br>Addysg (17)<br>Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (15)<br>Llety, bwyd a'r celfyddydau (13)<br>Manwerthu (12)<br>Gwyddonol, Technegol, Cyfathrebu (9)<br>Arall (15) |

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Tabl Cymharu Cyfrifiadau



| | 1841 | 1891 | Today |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ar yr aelwyd | | | |
| Nifer o ferched | | | |
| Nifer o ddynion | | | |
| Nifer o blant dan 18 | | | |
| Hynaf | | | |
| Ieuengaf | | | |
| Nifer gyda swyddi | | | |
| Math o waith | | | |

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Taflen Gofnodi Cyfrifiad Wag



**Dyddiad:**

| Cyfeiriad | Enwau | Perthynas â phennaeth y teulu | Oed a Rhyw | | Galwedigaeth neu waith | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwryw | Benyw | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Trawsgrifiad o Gyfrifiad 1841 Froncysyllte

| Lle | Preswyliedig (ni ofynnwyd am enw'r tŷ) | Enw Pob unigolyn oedd yn preswylio yn y tŷ y noson gynt | Oed a rhyw | | Gwaith, crefft, cyflogaeth neu o fodd annibynnol | Man eu Geni |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gwryw | Benyw | | |
| **Fron** | / | Edward Jones | 45 | | Llafurwr | Sir Ddinbych |
| | | Mary Jones | | 45 | | Sir Ddinbych |
| | | John Jones | 20 | | Glöwr | Sir Ddinbych |
| | | Thomas Jones | 15 | | Glöwr | Sir Ddinbych |
| | | Elizabeth Jones | | 15 | | Sir Ddinbych |
| | | Richard Jones | 10 | | | Sir Ddinbych |
| | | Edward Jones | 5 | | | Sir Ddinbych |
| | | William Jones | 5 | | | Sir Ddinbych |
| | | Margaret Jones | | 2 | | Sir Ddinbych |
| | | William Jones | 2 | | | Sir Ddinbych |

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Tudalen o gyfrifiad 1841 Froncysyllte



3

Cysyllte

| PLACE | HOUSES: Uninhabited or Building | HOUSES: Inhabited | NAMES of each Person who abode therein the preceding Night | AGE and SEX: Males | AGE and SEX: Females | PROFESSION, TRADE, EMPLOYMENT, or of INDEPENDENT MEANS. | Where Born: Whether Born in same County | Where Born: Whether Born in Scotland, Ireland, or Foreign Parts. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysyllte | | | Mary Roberts | | 65 | | n | |
| | | | Robert Hughes | 15 | | Collier | y | |
| | | | Mary do | | 15 | | y | |
| Fron | | 1 | Edward Edwards | 35 | | Labourer | y | |
| | | | Rebecca do | | 30 | | y | |
| | | | Thomas do | 5 | | | y | |
| | | | Mary do | | 5 | | y | |
| | | | Joseph do | 3 | | | y | |
| | | | Richard Edwards | 60 | | Butcher | y | |
| Fron | | 1 | John Lewis | 45 | | Sho m- | y | |
| | | | Thomas Lewis | 20 | | Collier | y | |
| | | | Elizabeth do | | 15 | | y | |
| | | | Edward do | 15 | | Collier | y | |
| | | | Mary do | | 15 | | y | |
| Fron | | 1 | Hugh Jones | 45 | | Labourer | y | |
| | | | Ann do | | 40 | | y | |
| | | | Joseph do | 18 | | Lab | y | |
| | | | John do | 15 | | do | y | |
| | | | Elizabeth do | | 4 | | y | |
| Fron | | 1 | Thomas Williams | 50 | | Labourer | y | |
| | | | Elizabeth do | | 50 | | y | |
| | | | Edward do | 25 | | Labourer | y | |
| | | | Sarah do | | 17 | | y | |
| do | | 1 | Edward James | 45 | | Labourer | y | |
| | | | Mary do | | 45 | | y | |
| TOTAL in Page 3 | 0 | 5 | | 14 | 11 | | | |

4

City or Borough of

Parish or Township of Cysyllte

*Enumeration Schedule.*

5

| PLACE | HOUSES: Uninhabited or Building | HOUSES: Inhabited | NAMES of each Person who abode therein the preceding Night | AGE and SEX: Males | AGE and SEX: Females | PROFESSION, TRADE, EMPLOYMENT, or of INDEPENDENT MEANS. | Where Born: Whether Born in same County | Where Born: Whether Born in Scotland, Ireland, or Foreign Parts. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fron | | | John James | 20 | | Collier | y | |
| | | | Thomas James | 15 | | do | y | |
| | | | Elizabeth do | | 15 | | y | |
| | | | Richard do | 10 | | | y | |
| | | | Edward do | 5 | | | y | |
| | | | William do | 5 | | | y | |
| | | | Margaret do | | 2 | | y | |
| | | | William Jones | 2 | | | y | |
| Fron | | 1 | John Jones | 35 | | Boatman | y | |
| | | | Jane do | | 35 | | y | |
| | | | John do | 15 | | do | y | |
| | | | Elizabeth do | | 13 | | y | |
| | | | Richard do | 9 | | | y | |
| | | | Mary do | | 7 | | y | |
| | | | Ellen do | | 4 | | y | |
| | | | Ann do | | 2 | | y | |
| | | | Kate Williams | | 50 | | y | |
| | | | Sarah Jones | | 12 | | y | |
| Fron | | 1 | Eliza Jones | | 25 | | y | |
| | | | Mary do | | 1 | | y | |
| Fron | | 1 | Thomas [illegible] | 34 | | Boatman | y | |
| | | | Ellen | | 33 | | y | |
| | | | John Rowland | 10 | | | y | |
| | | | Edward do | 10 | | | y | |
| | | | Charlotte do | | 10 | | y | |
| TOTAL in Page 4 | 0 | 3 | | 12 | 13 | | | |



# Trawsgrifiad o Gyfrifiad 1891 Froncysyllte

| Enw'r ffordd neu'r stryd | Nifer yr Ystafelloedd | Enw a chyfenw pob unigolyn | Perthynas â phennaeth y teulu | Statws o ran priodas | Oed ar eu pen-blwydd diwethaf | | Galwedigaeth neu waith | Man eu Geni | Laith a siaredir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gwryw | Benyw | | | |
| Trevor View | 3 | John Davies | Pennaeth | Priod | 46 | | Cychwr Camlas | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | Sarah Davies | Gwraig | Priod | | 44 | | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | William Davies | Mab | Sengl | 21 | | Llafurwr iard frics | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | Sarah Davies | Merch | Sengl | | 17 | Morwyn | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | John Davies | Mab | Sengl | 15 | | Llafurwr iard frics | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | Joseph Davies | Mab | Sengl | 12 | | Cynorthwywr Cychwr | Sir Ddinbych, Llangollen | Y ddwy |
| | | Sephora Davies | Merch | Sengl | | 8 | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen | Cymraeg |
| | | Christmas Davies | Mab | Sengl | 5 | | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen | Cymraeg |
| | | Mary Davies | Merch | Sengl | | 3 | Ysgolor | Sir Ddinbych, Llangollen | Cymraeg |

Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Tudalen o gyfrifiad 1891 Froncysyllte





103

*Administrative County of* ____

The undermentioned Houses are situate within the Boundaries of the — Page 27

| Civil Parish | ~~Municipal Borough~~ | ~~Municipal Ward~~ | ~~Urban Sanitary District~~ | Town or Village ~~or Hamlet~~ | Rural Sanitary District | Parliamentary Borough or Division | Ecclesiastical Parish or District |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| of Llangollen | of | of | of | of Vroncysyllte | of Corwen Union | of West Denbigh | of Llangollen |

| Cols. 1 No. of Schedule | 2 ROAD, STREET, &c., and No. or NAME of HOUSE | 3 HOUSES In-habited | 4 HOUSES Uninhabited (U.), or Building (B.) | 5 Number of rooms occupied if less than five | 6 NAME and Surname of each Person | 7 RELATION to Head of Family | 8 CON-DITION as to Marriage | 9 AGE last Birthday of Males | 10 AGE last Birthday of Females | 11 PROFESSION or OCCUPATION | 12 Employer | 13 Employed | 14 Neither Employer nor Employed | 15 WHERE BORN | 16 If (1) Deaf-and-Dumb (2) Blind (3) Lunatic, Imbecile or Idiot | 17 Language Spoken |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 155 | Brookside Ter | 1 | | 4 | Edward Whilde | Head | M | 35 | | General Labourer | | + | | Shropshire Oswestry | | English |
| | | | | | Ann Whilde | Wife | M | | 35 | | | | | Denbigh Rhuabon | | Welsh |
| | | | | | Emily E Wyles | Daur | S | | 14 | Scholar | | | | — Llangollen | | Both |
| | | | | | John Wyles | Son | S | 12 | | Scholar | | | | — — | | English |
| | | | | | George Whilde | Son | S | 10 | | Scholar | | | | — — | | Both |
| | | | | | Elizabeth A Whilde | Daur | S | | 3 | | | | | — — | | Welsh |
| | | | | | Richard H Whilde | Son | S | 1 | | | | | | — — | | Welsh |
| | | | | | George New | Lodger | M | 41 | | General Labourer | | + | | — — | | English |
| | | | | | George Weager | Lodger | S | [illegible] | | General Labourer | | + | | N K | | English |
| 156 | Woodland Cottage | 1 | | | Owen Davies | Head | M | 28 | | Lime Burner | | + | | Denbigh Llangollen | | Both |
| | | | | | Elizabeth Davies | Wife | M | | 31 | | | | | — | | Both |
| | | | | | Thomas Edwards | Lodger | S | 48 | | General Labourer | | + | | — — | | Both |
| | | | | | Antony Evans | Lodger | S | 20 | | General Labourer | | + | | — — | | Both |
| | | | | | David Evans | Lodger | S | 30 | | General Labourer | | + | | — — | | Both |
| | | | | | Fredrick Davies | Lodger | S | 31 | | General Labourer | | + | | — — | | Both |
| 157 | Trevor View | 1 | | 3 | John Davies | Head | M | 46 | | Canal Boatman (Barge) | | | | Denbigh Llangollen | | Both |
| | | | | | Sarah Davies | Wife | M | | 44 | | | | | — — | | Both |
| | | | | | William S Davies | Son | S | 21 | | Brickyard Labourer | | | | — — | | Both |
| | | | | | Sarah A Davies | Daur | S | | 17 | Domestic Serv | | | | — — | | Both |
| | | | | | John E Davies | Son | S | 15 | | Brickyard Labourer | | | | — — | | Both |
| | | | | | Joseph Davies | Son | S | 12 | | (Barge) Boatman assistant | | | | — — | | Both |
| | | | | | Sephora Davies | Daur | S | | 8 | Scholar | | | | — — | | Welsh |
| | | | | | Christmas Davies | Son | S | 5 | | Scholar | | | | — — | | Welsh |
| | | | | | Mary H Davies | Daur | S | | 3 | Scholar | | | | — — | | Welsh |
| 158 | Carmel Ter | 1 | | 3 | Thomas Wright | Head | M | 26 | | General Labourer | | | | Denbigh Llangollen | | Both |
| | | | | | Elizabeth Wright | Wife | M | | 26 | | | | | — — | | Both |
| | | | | | Harry Wright | Son | S | 5 | | Scholar | | | | — — | | Both |
| | | | | | George Wright | Son | S | 4 | | | | | | — — | | Both |
| | | | | | Emm E Wright | Daur | S | | 2 | | | | | — — | | Both |
| | | | | | John T Wright | Son | S | 1 | | | | | | — — | | Both |
| 4 | Total of Houses and of Tenements with less than Five Rooms ... | 4 | | 3 | Total of Males and Females... | | | 20 | 10 | | | | | | | |

NOTE.—*Draw the pen through such of the words of the headings as are inappropriate.*